Cenn@d

MEDI 7 2022 YN CYNNWYS *Y GOLEUAD* A *SEREN CYMRU* RHIF 80

SOULED OUT 22 – ‘Newid Llwyr’

‘Newid Llwyr’ oedd ein thema yn Souled Out 22, ac yn wir cawsom brofiad hollol drawsnewidiol! Yn dilyn tair blynedd o ddisgwyl, roedd Souled Out yn ôl yng Ngholeg y Bala, ac roedd yn wir werth yr aros!

S’mai, bawb! Joseff Griffiths ydw i, bachgen o Lanuwchllyn ger y Bala, sydd yma i rannu ychydig am yr amser anhygoel gefais yn Souled Out yr haf yma yng Ngholeg y Bala. Cynhadledd Gristnogol groesawgar, bum diwrnod yw Souled Out, ac roedd yn gorlifo o bobl ffeind, dysgeidiaeth dda a gweithgareddau hwyl. Teimlaf fod fy ffydd, rhywbeth pwysig i mi, wedi ei hannog a’i nerthu yn sgil yr wythnos hefyd.

Un o’r uchafbwyntiau i mi oedd y mawl a’r addoli. Mor braf oedd addoli Duw gyda’n gilydd yn ystod y prif sesiynau. Eleni rwyf wedi profi pa mor nerthol yw mawl, ac felly doedd dim byd gwell nag addoli, os oeddech awydd, ein Harglwydd gyda’n gilydd a phrofi ei bresenoldeb cynnes.

Hefyd, rhywbeth arall bendigedig oedd y gymuned o bobl oedd yna. Er yr amrywiaeth eang, roedd yr awyrgylch mor gartrefol a ffeind. Bendithiol tu hwnt oedd gweld hen ffrindiau a gwneud rhai newydd hefyd. Bu sawl sgwrs galonogol dros baned, wrth gynhesu *marshmallows* ger y tân ac yn ein grwpiau bach. Ac uwchben pob dim, pleser ac anogaeth enfawr oedd gweld Duw ar waith ym mywydau pobl eraill o wahanol oed a chefndir hefyd.

Amser addoli

Peth arall gwych oedd y ddysgeidiaeth gyfoes ac ymarferol. Drwy lu o wahanol bobl, edrychom ar bynciau fel ein meddylfryd, doniau ysbrydol a chyfathrebu effeithiol. Neges glir gan Dduw drwy’r wythnos oedd ei gariad rhyfeddol a’i ffyddlondeb tuag atom, sut mae am ein gollwng ni’n rhydd o’r pethau yna sy’n ein dal ni’n ôl, a’n trawsffurfio’n llwyr i fod yn fwy a mwy fel y person anhygoel mae o wedi’n dylunio ni’n ofalus i fod! Negeseuon priodol a thrawsnewidiol ar gyfer gweddill ein bywyd.

Ac, wrth gwrs, roedd Souled Out yn *jam-packed* efo hwyl a sbri! Cefais amser gwych yn y gêm bêl-droed fawr, yn bownsio ar *inflatables*, yn mwynhau hufen iâ blasus yn yr haul, yn dawnsio ar y llawr disgo, ac yn neidio o gwmpas yn Flip Out yng Nghaer – a mwy!

Ers imi ddechrau dod i Souled Out, rwyf wastad yn edrych ’nôl ar yr wythnos fel un o uchafbwyntiau’r flwyddyn, lle profais gariad ac agosatrwydd Duw, cymuned mor gynnes o bobl ac atgofion melys o hwyl yn yr haf. A dyma Souled Out yr haf yma yn mynd y tu hwnt i ngobeithion. Wedi fy ysgogi a’m harfogi ar gyfer fy nghamau nesaf, rwy’n edrych ymlaen at Souled Out 2023 yn barod, ac yn eich annog chi neu eraill rydych chi’n eu nabod, i ddod. Mae’n gyfle trawsnewidiol, yn hwyl ac yn rhy dda i’w golli.

Joseff Griffiths
Llanuwchllyn

Am fwy o wybodaeth am y gwaith yma gydag ieuenctid hŷn ac oedolion ifanc, cysylltwch â Meryl Walters yng Nghanolfan Gwaith Ieuenctid a Phlant Coleg y Bala am sgwrs ar 01678 520565 neu e-bostiwch info@souledoutcymru.net

Carys, Meryl a Carys yn rhannu’r gadair fawr!

Cred yn Nuw ar drai
Tudalen 2

Y Parchedig Trefor Jones, Caernarfon
Tudalen 4

Ffydd a Diwylliant
Chwarae mig â duw [Parhad]
Tudalen 7

Cred yn Nuw ar drai yn Ffrainc

Cynhelir arolwg yn Ffrainc bob deng mlynedd i ganfod beth yw agwedd a barn ei thrigolion am grefydd. Un o'r canfyddiadau mwyaf diddorol yn yr arolwg diweddaraf (2021) yw taw llai na hanner y boblogaeth bellach (49%) sydd yn credu yn Nuw. 57% oedd y rhif cyfatebol yn 2011, a chymharer hyn â'r ganran yn 1947 pryd yr oedd 66% o Ffrancwyr yn credu ym modolaeth Duw. Ymhlith y rhai dros 65 mlwydd oed yn unig y ceir mwyafrif.

Wrth gwrs, y mae cymdeithasegwyr a'r rheiny sydd yn ymddiddori mewn crefydd wedi mynd ati i ddadansoddi'r ffigurau ac i geisio esbonio eu harwyddocâd, ynghyd â'r rhesymau am nychdod anesgor Catholigiaeth ddiweddar. Un canfyddiad annisgwyl yw'r ffaith bod ymlyniad i grefydd yn gryfach yn y dinasoedd poblog a'r trefi sirol nag yng nghefn gwlad, lle mae prinder difrifol o offeiriaid i gynnal yr Achos. Y canlyniad yw bod Catholigiaeth egnïol i'w chanfod ymysg y boblogaeth gymharol freintiedig a chefnog – fel yn achos Versailles, nid nepell o Baris. Adnabyddir Versailles nid fel dinas frenhinol yn unig, ond, yn ogystal, fel lle sydd â chanran sylweddol o'r *Cathos,* fel y cyfeirir at Gatholigion Ffrainc o dro i dro.

Dadlenna'r arolwg ymhellach fod bywiogrwydd crefyddol i'w ganfod hefyd ymhlith Mwslemiaid a Phrotestaniaid efengylaidd yn y dinasoedd mawrion. Os nad ydyw'r crefyddau hyn yn ffynnu yno, y maent o leiaf yn dal eu tir.

Gwrthgyferbynnir trai crefydd gyda'r cynnydd a welwyd, ac a welir, i grefydd mewn disgwrs gwleidyddol. Canlyniad uniongyrchol y llofruddiaethau brawychus a gychwynnodd yn Toulouse a Montauban yn 2012 yw hyn, llofruddiaethau (y mae'n ddrwg gorfod cydnabod) sydd yn digwydd o hyd yn achlysurol. Er hyn, diflannu'n raddol y mae testun crefydd mewn sgyrsiau bob dydd, ac yn fwy felly yn y gweithle (18%).

Fe ddichon na ddylai'r ystadegyn olaf beri syndod, o ystyried sensitifrwydd y pwnc mewn gwlad lle ceir poblogaethau sylweddol o Fwslemiaid ac Iddewon. Mae'n ddiddorol sylwi taw 38% yn unig sydd yn trafod crefydd gyda'u teuluoedd, a llai fyth, 29%, sydd yn gwneud hynny gyda chyfeillion. Yn ôl y disgwyl, credinwyr, beth bynnag fo'u ffydd, yw'r mwyaf parod i drafod crefydd, a hynny'n fwyaf arbennig gyda'u teuluoedd: 83% o Gatholigion, 72% o Fwslemiaid a 67% o Brotestaniaid, yn ôl yr arolwg.

Llun: https://pxhere.com/en/photo/1409188

Yn sgil rhaib Covid, gofynnwyd cwestiwn ychwanegol yn yr arolwg cyfredol, sef a wnaeth yr haint eu dwyn yn agosach at (unrhyw) grefydd. O'r braidd y gwelwyd tystiolaeth o hyn, serch hynny, gyda 9% yn unig yn cydnabod i ymchwydd ysbrydol eu gafael yn ystod y cyfnod pan oedd y pla ar ei anterth, a hynny er gwaetha'r miloedd o farwolaethau, a'r amser a roddodd y cyfnod clo i fyfyrio'n ystyrlon am ddiben bywyd. Er hyn oll, fe ymddengys bod gan grefyddau'r gallu i 'drosglwyddo gwerthoedd cadarnhaol i bobl ifanc: parch tuag at eraill, goddefgarwch, haelioni, a chyfrifoldeb' a rhannwyd y gred hon gan bawb a holwyd (68%), heblaw anffyddwyr argyhoeddedig a'r digrefydd.

Rhaid cyfaddef nad yw canlyniadau'r arolwg yn syndod yn y byd oherwydd mae'r sawl sy'n gwybod rhywbeth am Ffrainc yn ymwybodol bod ei threftadaeth Gatholig a'i chrefyddoldeb yn araf fynd tros gof. Bellach, creiriau o gyfnod pellennig yw rhyfeddodau pensaernïol megis Basilique Saint Denis (un o eglwysi Gothig cyntaf y Cyfandir a gorffwysle brenhinoedd a breninesau Ffrainc) ac eglwysi cadeiriol fel y rhai yn Chartes, Reims ac Amiens.

Yn achos yr Eglwys Gatholig yn benodol, niweidiwyd ei delwedd yn ddirfawr y llynedd yn dilyn cyhoeddi adroddiad swyddogol cynhwysfawr a ddatgelodd fod cannoedd ar filoedd o bobl wedi eu cam-drin, un ai gan offeiriaid neu wŷr lleyg, dros gyfnod o saith deg mlynedd. Cyfrannodd hyn at y ddrwgdybiaeth, os nad casineb, tuag at yr Eglwys, ymateb sydd yn bodoli ymysg trwch nid ansylweddol o'r boblogaeth. Gellir hefyd ychwanegu'r ffaith bod gan nifer o Gatholigion syniadau a thueddiadau digon adweithiol. Adlewyrchwyd hyn yn yr etholiad arlywyddol eleni pan fu'r ymgeisydd asgell dde eithafol, Eric Zemmour, yn dra llwyddiannus mewn trefi megis Versailles. Andwyol ddigon yw safbwyntiau o'r fath i fudiad sydd yn amcanu bod yn gynhwysol ac eangfrydig.

Byddai'n ddiddorol cael darlun llawnach ar safbwyntiau ein cyd-Gymry tuag at grefydd a chred y dyddiau hyn, er y tybiaf y ceid cyfochredd rhwng y sefyllfa yng ngwlad Pantycelyn a gwlad Jean Calvin.

Ceri Rhys Davies

(Cyhoeddwyd yn wreiddiol yn Y Gadwyn, cylchgrawn Eglwys y Crwys)

Capel Pencaenewydd, Eifionydd
Eglwys Bresbyteraidd Cymru

Cynhelir gwasanaeth
'Dathlu'r 200 mlwyddiant'
ar fore Sul Medi 11eg
am 10.00
yng nghwmni'r
Parch Edwin Hughes
a'r Parch Dafydd Hughes
Llywyddir gan y Parch Aled Davies.

Panad a 'chacen y dathlu' i ddilyn

Croeso cynnes i bawb
Cyfle i ddiolch am 200 mlynedd
o dystiolaeth Gristnogol.

(Cynhaliwyd diwrnod i'r teulu eisoes yn ystod Gorffennaf - gweler y llun)

‘Trysorau Newydd a Hen’

Fy hoff emyn

Y tro hwn, Lydia Power sy’n ein harwain i werthfawrogi ei hoff gân o fawl.

Dim Ofn
Hyder sydd gen i nawr i fyw,
Daw o ffyddlondeb pur fy Nuw,
Mewn storm mae tawel fan,
D’addewid ar y lan,
Ymddiried wyf yng ngrym dy air,
I’th deyrnas cydiaf i yn daer,
Tu hwnt i’r anial ffordd,
Tu hwnt i’r enfawr don.

Pan gerddaf drwy’r holl ddyfroedd, beth all fy nhrechu nawr?
Pan af i drwy’r afonydd, beth all fy nhynnu i lawr?
Fy Nuw a wneith y ffordd, does genna i ddim ofn.

Tragwyddol, d’addewidion sydd
Yn digwydd yn dy amser di;
Ni ddigalonnaf mwy,
Codaf fy nwylo fry
A chychwyn canu i mewn i’r nos;
Yr haul sy’n codi sain fy nghlod,
Y rhyfel sydd i ti,
Gorffennwyd yw y gri.

Pan gerddaf drwy’r holl ddyfroedd, beth all fy nhrechu nawr?
Pan af i drwy’r afonydd, beth all fy nhynnu i lawr?
Fy Nuw a wneith y ffordd, does genna i ddim ofn.

Wrth gerdded drwy y fflamau, ni losgaf yn y tân,
Safaf o flaen y cewri, buddugol yw fy nghân,
Fy Nuw a wneith y ffordd, does genna i ddim ofn.

Tu ôl ac o’m blaen i,
Wrth f’ochr wyt Ti,
Mewn dyffryn, mewn cysgod,
Rwyt Ti’n fy nghanfod,
Does genna i ddim ofn.

Rhys Hughes et al.
Cyfieithiad Cymraeg o ‘Not Afraid’ gan Red Rocks Worship.
I glywed Gareth Elis a Cadi Gwyn yn canu’r gân, dilynwch y ddolen hon: https://youtu.be/BYdy2VUxQxo

Dwi’n hoff iawn o’r gân yma. Pan fyddaf yn ei chanu, mae fy ffydd yn Nuw yn tyfu yn fy nghalon – yn y Duw nad oes dim yn amhosibl iddo. Mae’r geiriau’n fy atgoffa pwy ydyw Ef a’r ffaith ei fod yn cadw ei addewidion. Ac fel tad ffyddlon, gallaf ddibynnu arno Ef ... bob tro. Beth bynnag sy’n ein hwynebu – pethau mawr, pethau bach – gallwn ymddiried ynddo Ef.

Yn ddiweddar, ar fore llawn nerfau yn y tŷ, daeth y gân hon i fy meddwl. Roedd y bore’n llawn cyffro ac ansicrwydd am y diwrnod i ddod: roedd fy mhlentyn hynaf yn ymweld â’i hysgol uwchradd am y tro cyntaf. Fe wnaethon ni droi at y gân hon i’n

helpu ni i droi ein llygaid at yr Un sydd wedi mynd o’n blaen ni ac i ddarganfod ein hyder ynddo fe unwaith eto. Ar y ffordd yn y car, roedd y ddwy ohonon ni yn canu nerth esgyrn ein pennau, ‘Does genna i ddim ofn!’

Rwy’n credu fy mod i angen cyffesu’r geiriau yna lawn cymaint â hi! Mae hi wedi mynd trwy lawer o newid yn ystod y flwyddyn ddiwethaf ar ôl i ni ail-leoli fel teulu. Dyma roeddwn i’n ei ddweud bob tro roedd hi’n wynebu rhywbeth newydd, ‘Cofia pwy sydd wrth dy ochr! A chofia’i fod E’n dal dy law di hefyd. ’Na i gyd sydd eisiau i ti ei wneud yw gwasgu dy ddwrn, ac fe wnei di ffeindio bod ei law Ef yn dy law di.’

A’r bore yna, wedi’r holl ganu, dyma hi’n cerdded i mewn i’r ysgol newydd – ei bag yn un llaw a’r llall fel dwrn tyn. Am gysur – gwybod nad oes angen i ni ofni. Beth bynnag a ddaw, bydd ein Duw yn arwain y ffordd; does gynnon ni ddim ofn.

Lydia Power
Cydweli

Fi, yr ARGLWYDD, ydy dy Dduw di,
yn rhoi cryfder i dy law dde di,
ac yn dweud wrthot ti: “Paid bod ag ofn.
Bydda i’n dy helpu di.”
(Eseia 41:13; Beibl.net)

Paid bod ag ofn! Dw i wedi dy ollwng di’n rhydd!
Dw i wedi dy alw wrth dy enw! Fi piau ti!
Pan fyddi di’n mynd drwy lifogydd, bydda i gyda ti;
neu drwy afonydd, fyddan nhw ddim yn dy gario di i ffwrdd.
Wrth i ti gerdded drwy dân, fyddi di’n cael dim niwed;
fydd y fflamau ddim yn dy losgi di.
Achos fi ydy’r ARGLWYDD dy Dduw di,
Un Sanctaidd Israel, dy Achubwr di!
(Eseia 43:1a–3a; Beibl.net)

Y Parchedig Trefor Jones, Caernarfon

Ansoddair a glywid yn aml wrth ddisgrifio Trefor Jones oedd 'bytholwyrdd', a hyd at yn gymharol ddiweddar roedd wedi llwyddo i gadw'n sionc ei gerddediad, yn chwim ei feddwl ac yn ifanc ei wedd. Daliodd ati i bregethu hyd nes oedd bron yn 95 oed a'r pregethu hwnnw mor rymus ag erioed.

Trefor Jones oedd yr hynaf o dri o blant, yn fab i Pierce a Maggie Jones, Pentre Isa, Llangernyw, ac yn frawd i John a Beryl. Collodd ei dad yn ifanc, ac yntau wedyn yn gorfod cynnal ei fam a'i frawd a'i chwaer pan oedd arian yn brin a bywyd yn galed. Cyfeiriai'n aml at ei fam gan fynegi ei ddyled aruthrol iddi am iddi drosglwyddo iddo'r gwerthoedd a fu'n sylfaen i'w fywyd gydol ei oes. Bu dylanwad Capel Cefn Coch yn drwm arno, a chyfeiriai ato fel y deml sanctaidd lle cafodd ei fagwraeth ysbrydol.

Yn ystod yr Ail Ryfel Byd bu'n gweithio i'r Weinyddiaeth Amaeth, a byddai'n aml yn hel atgofion am y cyfnod difyr hwn yn gweithio gyda thractorau a pheiriannau ar lethrau serth Bro Aled. Cychwyn wedyn ar bennod newydd yng Ngholeg Clwyd, y Rhyl, gan gydoesi â'r Parchedig Ieuan Lloyd, a fu'n gyfaill oes iddo ac a fu farw yn gynharach eleni. Oddi yno aeth i'r Coleg Diwinyddol yn Aberystwyth am dair blynedd cyn treulio blwyddyn yng Ngholeg y Bala.

Yn y cyfnod hwn cyfarfu â Rhoda Bibby, oedd yn byw yn Llanrwst, a bu'r ddau'n canlyn am rai blynyddoedd cyn priodi yn 1951. Bu'n uniad perffaith ac ni allai fod wedi cael gwell gwraig gweinidog. Bron union flwyddyn yn ôl bu i'r ddau ddathlu 70 mlynedd o fywyd priodasol a mwynhau 'te bach' yng nghwmni teulu a ffrindiau agos yng Nghae Synamon, cartref Geraint a Sioned.

Yn 1953 derbyniodd Trefor Jones alwad i fod yn weinidog yn Nyffryn Clwyd, ar gapeli Pentrecelyn, Cefn y Wern a Chricor. Tra oeddent yno y ganwyd Geraint. Bu'r teulu'n eithriadol o hapus ym Mhentrecelyn, a byddai Trefor Jones yn aml yn cyfeirio at y cyfnod hwn gydag anwyldeb yn ei bregethau. Symud wedyn, ar ddiwedd y pumdegau, i fod yn weinidog ar Gapel y Garth, Porthmadog, a Chapel Nasareth, Morfa Bychan, cyn symud eto yn 1965 i Gaernarfon i fod yn weinidog ar Gapel Engedi, ac am gyfnod byr ar yr hen gapel Seilo. Roedd tŷ gweinidog Engedi, Bryn Beuno, yn

digwydd bod y drws nesaf i Tŷ Fry, cartref John a Jessie Roberts. Bu'r ddau deulu'n gymdogion ac yn ffrindiau agos, ac ni ellir ond dychmygu'r seiadu a'r trafod cyson a fu rhwng Trefor Jones a'r Parchg John Roberts ar hyd y blynyddoedd y bu'r ddau'n gymdogion.

Bu Trefor Jones yn weinidog yng Nghaernarfon am dros chwarter canrif, yn uchel iawn ei barch ymhlith aelodau'r capeli a thrigolion y dref a'r cyffiniau. Roedd yn ŵr trwsiadus, bob amser fel pìn mewn papur, a'i wallt gwyn, trwchus heb flewyn o'i le. Nodweddid ef gan urddas cynhenid a fyddai'n amlwg yn y pulpud ac yn arbennig felly wrth Fwrdd y Cymun. Ymdeimlai â chysegredigrwydd y sacrament wrth iddo dynnu'r lliain claerwyn i ddatguddio'r elfennau a phenlinio wrth y bwrdd cyn torri'r bara a'i rannu ymhlith blaenoriaid y Sêt Fawr. Gyda'i lais dwfn, melfedaidd, ni fyddai byth yn gwastraffu geiriau, ac ar ddiwedd y sacrament taenai'r lliain yn ôl yn ofalus dros yr elfennau. Byddai rhywbeth arbennig yn digwydd yng Nghapel Engedi mewn oedfa gymun. Trefor Jones, drwy ei esiampl, a ddysgodd i mi bwysigrwydd urddas mewn oedfa.

Ond efallai mai fel pregethwr grymus y cofir ef fynychaf. Byddai'n saernïo'r bregeth yn ofalus gan ei pharatoi'n drwyadl. Byddai iddi destun, tri phen ac eglurebau pwrpasol a chyfoes. Gallai hawlio sylw ei gynulleidfa yn ddiymdrech a byddai ei neges yn ddieithriad yn eglur. Byddai galw arno i bregethu mewn cyfarfodydd pregethu ledled Cymru a thros y ffin, ac ni roddai un dim fwy o foddhad iddo na phregethu'r Efengyl.

Un o'i arwyr, ymhlith llawer, oedd y diwinydd Lesslie Newbigin a gwn ei fod wedi darllen nifer o'i lyfrau, yn eu plith *The Good Shepherd: Meditations on Christian Ministry in Today's World*. Cyflwynodd y llyfr i mi ar ddechrau fy ngweinidogaeth. Mae'n llyfr cynhwysfawr sy'n pwysleisio pwysigrwydd bugeilio oddi mewn ac oddi allan i'r eglwys. Byddai Trefor Jones yn bugeilio'i braidd yn gyson a chydwybodol, a hynny mewn cyfnod pan oedd aelodaeth eglwysig yn llawer mwy na'r hyn ydyw heddiw. Byddai hefyd yn dirprwyo gwaith i nifer o flaenoriaid ac aelodau'r eglwys, ac mae'n bur debyg fod gwneud hynny wedi bod yn gymorth i'm harwain i i'r weinidogaeth. Trwy ei weinidogaeth medrodd droi eglwys yn deulu oedd yn cynnwys pawb, o'r ieuengaf i'r hynaf.

Bu'n ffyddlon i'r Cyfundeb gan ymgymryd â sawl swydd gyfrifol yn y tair Henaduriaeth y bu'n aelod ohonynt. Gweithredodd fel Ysgrifennydd y Gymdeithasfa yn y Gogledd (1985–7) ac esgynnodd i gadair Llywydd y Gymdeithasfa yn 1989.

Ni ellir terfynu'r deyrnged hon heb gyfeirio at ei hoffter o geir! Bu'n dreifio gydol ei oes, heb erioed fod wedi pasio prawf gyrru! Ond roedd yn ddreifar medrus a gofalus. Byddai'n newid ei gar yn weddol gyson, ac onibai i'w briod ei ddarbwyllo'n wahanol, byddai wedi mynd am gar newydd ac yntau'n 95 oed!

Bu ef a'i briod yn ffodus o gwmni ei gilydd am dros 70 mlynedd, a buont yn ffodus o allu dilyn gyrfaoedd Lisa ac Euros, eu hwyres a'u hŵyr, ac nid yn unig cael bod yn daid a nain ond yn hen daid a nain yn ogystal. Meddai Euros ar ddydd yr angladd: 'Mae'r ddau wedi bod yn gefn i'w gilydd am flynyddoedd ac wedi bod yn Nain a Thaid amhrisiadwy.'

Mae tref Caernarfon yn dlotach heddiw o fod wedi colli un o'i chymwynaswyr mwyaf. Roedd Trefor Jones yn ŵr cadarn, cyfeillgar a bonheddig.

Cydymdeimlwn yn ddiffuant â'i briod, Mrs Rhoda Jones; ei fab, Geraint, a'i briod, Sioned; ei wyres, Lisa, a'i gŵr, Geraint; ei ŵyr, Euros, a'i briod, Taminy; a'r gorwyrion: Huw, Ifan, Gwawr, Gwenllian ac Eban. Dymunwn Dduw yn rhwydd iddynt yn eu galar a'u hiraeth.

Gwenda Richards

(Seiliedig ar y teyrngedau a gafwyd gan Geraint ac Euros Clwyd Jones ar ddydd yr angladd.)

‘Draw draw yng Nghernyw ...?’

Ym mis Mehefin codwyd cerflun ceramig yn nhref St Austell yng Nghernyw. Fe gaiff y gerfddelw ei dadorchuddio yn yr hydref yn swyddogol, ond mae eisoes wedi creu tensiwn yn y dref. Mae’n mesur 11.5 m o daldra, mae wedi costio tua £80,000 ac mae’n rhan o brosiect i adfywio tref St Austell. Mae’r dref yn enwog am hen ddiwydiant clai fu’n llwyddiannus iawn yno ers tua 1740. Yn ôl Sandy Brown, y cerflunydd, dyw’r ffigwr ddim yn edrych fel ffigwr dynol arferol, ac fe’i dyluniwyd i ddathlu bod yn fenyw. Roedd am i’r cerflun fod yn fenywaidd a chreu argraff. Gelwir y cerflun yn ‘Dduwies y Ddaear’.

Mae saith o arweinwyr crefyddol yr ardal wedi anfon llythyr at Gyngor y Dref yn gofyn i’r arweinwyr ystyried symud y cerflun, newid ei siâp neu newid ei enw. Roedd y llythyr yn dweud bod arweinwyr y dref yn weithredol, er falle’n ddiarwybod, yn dewis gwrthod Duw ac yn hytrach yn dod â’r dref o dan ddylanwad ysbrydol Duwies y Ddaear.

Dywedodd gweinidog eglwys Light and Life, ‘Mae Duw yn gosod allan i ni’r ffordd i fyw, a dwy ran allweddol o hynny yw peidio â chael duw arall, a pheidio â gwneud eilunod, ac mae’r cerflun yn gwneud y ddau beth. Ac felly mae’n dangos i ni ei fod yn sarhad ar Dduw.’

Serch hynny, dywedodd Richard Pears, cyn-faer y dref, nad oedd unrhyw gynlluniau i symud y cerflun na newid ei enw. Roedd wedi ei lorio’n llwyr gan

Llun gan Richard Whitehouse

lythyr yr arweinwyr crefyddol ac wedi ei syfrdanu. Dywedodd y cerflunydd fod y llythyr wedi achosi tristwch a phenbleth iddi. Dyw hi ddim yn ei weld yn ffigwr crefyddol, ond dathliad o’r Fam Ddaear sy’n tynnu sylw at dreftadaeth diwydiant clai yr ardal.

Mae sawl peth yn dod i’r meddwl wrth glywed yr hanes torcalonnus yma:

- Mae’n profi’n glir i ni eto fod gwledydd Prydain yn feysydd cenhadol. Nid dim ond China sydd ag ‘eilunod o’u cylch ym mhob man’.
- Mae’n dangos meddwl seciwlar dwfn llawer o bobl gwledydd Prydain. Mae’n ein hatgoffa ble ry’m ni’n byw. Fel roedd plant Israel yng nghanol paganiaeth yr Aifft a Chanaan pan gafodd Moses y Gyfraith ar fynydd Seina, mae’r un peth yn wir amdanom ni fel pobl Dduw heddiw. Mae Duwies y Ddaear yn gwneud duw o’r ddaear, arfer sy’n mynd ’nôl i Fesopotamia amser Genesis, mytholeg Groeg a’r Rhufeiniaid. Mae’r Beibl yn dweud yn glir taw Duw greodd y nefoedd a’r ddaear, ac mai eiddo’r Arglwydd yw’r ddaear a’i chyflawnder.
- Mae’n dangos diffyg dylanwad yr Eglwys Gristnogol a’r Efengyl yng ngwledydd Prydain ar y cyfan. Roedd llythyr yr arweinwyr eglwysig yn werthfawr ac yn dda, yn dangos consýrn am wir adfywiad a ffyniant eu tref, trwy beidio â sarhau’r gwir Dduw. Ond cafodd ei anwybyddu.
- Mae’n dangos yr angen dybryd am adfywiad ysbrydol yn ein gwledydd ni. Wrth gael ein hatgoffa o ddallineb ysbrydol ein cymdogion, mae’n ein gyrru ar ein gliniau i erfyn am ymweliad nerthol o’r Ysbryd Glân unwaith eto.

Boed i ni beidio â bod yn ddi-hid nac yn rhy gondemniol o bobl sydd yn farw mewn camweddau a phechodau, fel roeddem ni un adeg. Boed i ni barhau i gyhoeddi a thystio i newyddion da yr Efengyl sydd yn uno dyn colledig â’r Bywiol Dduw yn Iesu Grist, a phledio am nerth mawr yr Ysbryd Glân i gyd-fynd â’r dystiolaeth, er gogoniant i’r Arglwydd a’i ras, yr Un nad oes ganddo ddim pleser ym marwolaeth yr annuwiol.

John Treharne

Llifogydd Pacistan – Apêl DEC

cymorth cristnogol

Mae’r golygfeydd o Bacistan yn dorcalonnus. Mae’r llifogydd difrifol, sy’n waeth oherwydd yr argyfwng hinsawdd, wedi lladd mwy na 1,000 o bobl ac anafu 1,600, ac wedi difrodi dros filiwn o gartrefi.

Bydd Cymorth Cristnogol yn chwarae ei ran drwy gefnogi Apêl Llifogydd Pacistan DEC. Mae hefyd wedi cyfrannu £50,000 at Apêl yr ACT Alliance er mwyn helpu eu partneriaid.

Fodd bynnag, nid yw Cymorth Cristnogol yn bresennol yn y wlad ac felly ddim yn ymateb yn uniongyrchol. Credwn fod elusennau DEC sydd yn bresennol yn y wlad yn fwy addas i ymateb er mwyn cefnogi’r cymunedau yno. Rydym yn eich annog felly i gefnogi Apêl Llifogydd Pacistan DEC.

Am fwy o wybodaeth, ewch i https://www.christianaid.org.uk/our-work/news-and-blogs/support-dec-pakistan-floods-appeal

Gweddi dros Bacistan

Dduw tosturiol
Clyw ein gweddi dros bobl Pacistan;
dros y rhai gollodd anwyliaid yn y llifogydd
a thros y rhai orfodwyd o’u cartrefi.
Mae ein calon yn drwm wrth weld
y dioddefaint a’r difrod.
Dduw cariad a chyfiawnder:
galw ni i roi hael
ac i weithred brys dros yr hinsawdd.
Una ni mewn gobaith
dros fyd ble gall pawb fyw mewn
diogelwch.
Amen.

O'r Beibl: 14

Y Gwynfydau (7)

"Gwyn eu byd y rhai pur eu calon,
oherwydd cânt hwy weld Duw."
(Mathew 5:8)

Heddiw, rydym yn cyrraedd y chweched gwynfyd: 'Gwyn eu byd y rhai pur eu calon, oherwydd cânt hwy weld Duw.' Yma, mae Iesu'n datgan fod y rhai 'pur eu calon' o dan fendith Duw oherwydd nhw yw'r rhai fydd yn cael 'gweld Duw'.

Ond beth mae'n ei olygu i bobl fod yn 'bur eu calon'? Wel, yn yr iaith Roeg – iaith wreiddiol y Testament Newydd – mae'r gair sy'n cael ei gyfieithu fel 'pur' hefyd yn gallu golygu 'digymysg'. Mae hyn yn ein helpu i ddeall beth yw ystyr bod yn 'bur'. Rhywbeth 'pur' yw rhywbeth nad ydyw wedi cael ei gymysgu â rhywbeth arall. Pan soniwn am 'aur pur', rydym yn golygu aur nad yw wedi cael ei gymysgu ag unrhyw fetelau eraill. Pan soniwn am 'ddŵr pur', rydym yn golygu dŵr croyw nad yw wedi cael ei gymysgu ag unrhyw hylif arall. Wel, pan mae Iesu'n sôn am galon 'bur' yn yr adnod hon, mae'n golygu rhywbeth tebyg. Calon 'bur' yw calon ddigymysg: calon sy'n ddidwyll a diffuant, heb unrhyw ddichell i'w chael ynddi, calon sy'n unplyg a diwyro ei chariad tuag at Dduw, heb elfen o dwyll ynddi. Fel yn achos aur pur a dŵr pur, calon bur yw calon ddidwyll heb ddim byd ffals wedi'i gymysgu â'r didwylledd hwnnw. Yn ei gyfrol wefreiddiol *The Message of the Sermon on the Mount* (1978), mae John Stott yn disgrifio'r rhai 'pur eu calon' trwy ddweud hyn: 'Their very heart – including their thought and motives – is pure, unmixed with anything devious, ulterior or bases. Hypocrisy and deceit are abhorrent to them they are without guile.'

Wrth i Iesu ddweud y gwynfyd hwn yn adnod 8, mae'n cyfeirio'n ôl at salm benodol yn yr Hen Destament: Salm 24. Yn y salm hon mae'r brenin Dafydd yn gofyn y cwestiwn: 'Pwy a esgyn i fynydd yr Arglwydd a phwy a saif yn ei le sanctaidd?' Hynny yw, mae Dafydd yn gofyn, pwy sy'n cael gweld Duw? Yna, mae'n rhoi'r ateb i ni yn adnod 4: 'Y glân ei ddwylo a'r *pur o galon*, yr un sydd heb osod ei feddwl ar dwyll a heb dyngu'n gelwyddog'. Sylwch sut mae Dafydd yn defnyddio'r ymadrodd 'pur o galon' yma. Yn ôl Dafydd, y rhai pur o galon yw'r rhai sydd heb osod eu meddyliau ar 'dwyll'. Y bobl sydd â chalon ddidwyll a digymysg. Mae'n arwyddocaol iawn fod Iesu'n sôn am bobl 'pur *eu calon*' yma. Yn y ganrif gyntaf, roedd y Phariseaid yn gosod pwyslais mawr ar fod yn 'bur'. Ond yr hyn oedd bwysicaf iddynt oedd purdeb allanol: ymddangos yn grefyddol a phur ar y tu allan drwy ddilyn rheolau defodol yr Hen Destament. Ond, i'r Arglwydd Iesu, nid ymddangos yn 'bur' ar y tu allan oedd yn bwysig, ond bod yn 'bur' y tu fewn – yn ein calonnau. Yn wir, yn Mathew 23:25–8, mae Iesu'n condemnio rhagrith y Phariseaid drwy ddweud: 'Gwae chwi, ysgrifenyddion a Phariseaid, ragrithwyr, oherwydd yr ydych yn glanhau'r tu allan i'r cwpan a'r ddysgl, ond y tu mewn y maent yn llawn trachwant a hunanfoddhad.' Er bod y Phariseaid yn edrych yn grefyddol ar y tu allan, roedd eu calonnau nhw'n frwnt.

Wrth i Iesu'n sôn am 'y rhai pur eu calon' yn y gwynfyd hwn, sylweddolwn yn syth pa mor amhur yw ein calonnau. Nid yw ein calonnau ni'n ddigymysg ac yn bur ohonyn nhw eu hunain. Yn



wir, mae dyheadau a bwriadau ein calonnau yn aml yn gymysg. Nid yw ein calonnau yn gwbl ddidwyll a diffuant gan ein bod ni'n aml yn ffals ac yn dwyllodrus. Yn wir, weithiau ceisiwn guddio ein calonnau rhag eraill gan ein bod ni'n gwybod ein bod ni'n rhagrithiol.

Ond, yn dra gwahanol i ni, mae yna un person sydd wirioneddol yn 'bur ei galon'. Y person hwn, wrth gwrs, yw Iesu. Mae ei galon ef yn gwbl bur, didwyll a diffuant. Nid oes twyll na rhagrith yn ei galon; mae ei galon yn gwbl ddigymysg. Roedd yn gwbl ddiwyro yn ei gariad tuag at ei Dad a'i gariad tuag atom ni nes iddo ildio'i fywyd a marw ar y groes dros ein pechodau. Os ydym eisiau gwybod beth mae'n ei olygu i fod yn 'bur ein calon' heddiw, y cyfan sy'n rhaid inni ei wneud yw edrych ar Iesu.

Ond drwy roi ein ffydd yn Iesu a'r hyn mae wedi'i wneud trosom ar y groes, mae'n cynnig maddeuant i ni am fod mor rhagrithiol a chymysg ein calon, ac mae'n rhoi 'calon bur' newydd yn rhodd i *ni*. Am beth rhyfeddol!

Yna, ar ôl derbyn y galon hon yn rhodd ganddo, mae'n ein galw ni i fod yn 'bur ein calon' yn ein bywydau bob dydd. Mae'n ein galw i fod yn ddidwyll ein cariad tuag ato heb elfen o dwyll na rhagrith yn ein calonnau. Ond mae hyn yn beth anodd. Mae cadw ein calonnau yn bur a didwyll yn her. Wedi'r cyfan, mae'r byd o'n cwmpas yn ceisio hoelio ein sylw ar filoedd o bethau heblaw am Iesu.

Beth felly fydd yn ein hannog ni i ddyfalbarhau i gadw ein calonnau'n bur? Wel, yr hyn fydd yn ein hannog yw'r hyn mae Iesu yn ei ddweud nesaf: 'Gwyn eu byd y rhai pur eu calon, *oherwydd cânt hwy weld Duw*'. Dyma anogaeth arbennig i fod yn bur ein calon. Bydd y rhai pur eu calon yn cael 'gweld Duw'. Trwy dyfu yn ein purdeb, byddwn ni'n 'gweld' Duw drwy ddod i'w adnabod yn y bywyd hwn. Ond, yna, pan ddaw Iesu Grist yn ôl, byddwn ni'n cael ei weld wyneb yn wyneb.

Cwestiynau i feddwl amdanynt:

- Beth mae'n ei olygu i fod yn 'bur ein calon'?
- Sut mae Iesu'n esiampl berffaith o'r hyn mae'n ei olygu i fod yn 'bur ein calon'?
- Sut mae cael calon bur?
- Pa anogaeth mae Iesu yn ei rhoi i ni i fod yn 'bur ein calon'?

Gwilym Tudur

S4C

Dechrau Canu, Dechrau Canmol
Sul, 11 Medi, am 7.30yh
Bydd Nia yn treulio amser gydag Arfon Wyn, sy'n rhannu ei weledigaeth yn ei ganeuon ac yn rhoi ei egwyddorion ar waith yn ei fywyd bob dydd

BBC radio cymru

Caniadaeth y Cysegr
Sul, 11 Medi, am 7:30yb a 4:30yp
Huw Foulkes yn trafod sut mae rhai o'n corau'n cyfrannu tuag at ein traddodiad emynyddol

Sul, 11 Medi, am 12:00yp
Oedfa dan arweiniad Ann Lewis, Capel Helyg, Eifionydd

Ffydd a Diwylliant

Chwarae mig â duw [Parhad]

Mae'r teitlau a osodir i'r cerddi unigol gan Esyllt Maelor yng nghasgliad y Goron eleni yn arwyddion ffyrdd i'r darllenydd, yn ei gyfeirio'n glir o dro i dro a'i yrru rownd y byd dro arall. Y testun yn chwarae mig â'r cynnwys.

Dyna i chi 'dameg', lle mae'r gerdd yn ei chyfanrwydd yn debyg i'r glöyn byw sy ynddi, yn hedfan yma ac acw, a phan dach chi'n meddwl eich bod chi wedi cwpanu'ch dwylo'n ofalus am ei hystyr, mae hi off eto, yn pendilio'n brydferth yng ngolau'r lamp. Ond nid cannwyll, sylwer; fyddai honno'n angau iddi.

A dyna chi 'iawn'. Yr ystyr llythrennol ydy fod syms yn gorfod bod yn iawn neu beidio. Ond yng nghyd-destun ein hadnabyddiaeth ni o dduw, pwy sydd i ddweud pwy sy'n iawn? Ac mae amwysedd pellach o osod y fannod o flaen y gair: Yr Iawn. Rydyn ni'n ôl gyda'r helfa: 'Chwilio rhy galed am yr ateb ... dysgu'r ateb ar ei chof' nes deall 'bod hi'n oce i gael pethau'n rong – / byw efo'r cwestiynau oedd hi fod i wneud, dim ffendio'r atebion / a bod duw ddim yn lecio gwneud syms.'

Mae'r gyfeiriadaeth Gristnogol yn bur uniongyrchol mewn rhai cerddi. Mae'r gerdd 'cyhoeddiadau' yn gartrefol braf yn cyfeirio at '[d]yllau yn nwylo'r gadair dan y pulpud', am garped a chlustog ac ôl dwylo a thraed arnyn nhw, ac efallai'n annisgwyl, 'ôl teimlo'n saff'. Gwyddom fod y Duw yma'n fodlon '[c]odi llwch o'r sgyrtins'. Y bobol a'u briwiau tu mewn: 'tu mewn sy'n trio'u gorau i llnau'r brasys / a pholisio'r canwyllbrennau ...'

Dro arall, mae'r mydr a geiriau unigol yn eich gyrru chi ar eich pen i gyfeiriad penodol. Mae mydr 'salmaidd' y gerdd 'gwybod' a'r geiriau 'arlwyo' a 'gorwedd' yn eich gyrru ar eich union i lyn cysgod angau.

Un o'r cerddi mwyaf uniongyrchol ond cyfoethog yw 'nabod'. Ffrind yn galw heb unrhyw ffanfer ac yn cerdded trwy'r tŷ; onid ydyn nhw'n 'gwybod am gyfrinachau drôr y gegin, / yn gwybod yn iawn fod mwy na chotiau wedi'u taflu i'r twll dan grisiau'? Yn gwybod cyfrinachau'r galon – ac o gael gwahoddiad i ystyried y cerddi ar fwy nag un lefel, dyna ddatganiad ynglŷn â sut mae duw yn ein hadnabod ni hefyd.

Ond awn yn ôl i'r dechrau i orffen gyda'r gerdd 'ymweld'. Yn ôl tystiolaeth y bardd, sôn mae hi am sut, weithiau, fod ei mab yno, wrth ei hymyl yn ei hannog i sgwennu. Ond eto, mae'r diemwnt yn taflu ei oleuni i sawl cyfeiriad, ac allwn ni ddim peidio â'i darllen drwy lygaid ffydd. Wedi'r cwbl, onid ydy'r 'canol llonydd' yn ein cyfeirio at Morgan Llwyd? 'Weithau rwyt ti yn fanna, / yng nghanol fy nhalcen. / Bwlsai. ... Fory falla na fyddi di'n taro'r canol llonydd.'

Dyma'r casgliad cyfoethocaf i ennill y Goron ers degawdau. Mae Esyllt Maelor, drwy rannu ei phrofiadau dwysaf efo ni, yn ein gwahodd i'w dilyn wrth chwarae mig â'i duw, ac er gwaetha'r rhwystredigaeth, i ddal ati i chwarae'r gêm.

Arwel Rocet Jones

Gol. Beth am anfon eich ymateb cryno chi atom am gerddi'r Eisteddfod eleni? Drwy eich cyfraniad fe gawn ni oll ein cyfoethogi!

Llun: Cymru Fyw

Diolch a gwahoddiad

Carem fel Golygyddion ddiolch o galon i chi am eich ffyddlondeb a'ch diddordeb yn *Cenn@d*. Cofiwch o hyd mai *eich papur chi* fel capeli Eglwys Bresbyteraidd Cymru ac Undeb Bedyddwyr Cymru ydyw.

A misoedd yr hydref ar y trothwy, rydym yn edrych ymlaen at weld cynulleidfaoedd yn ailafael yn eu gweithgareddau wedi'r rhwystrau mawr a'r hyder a gafodd ei siglo yn sgil Covid. Clywir lleisiau'n dweud yn fynych 'nad oes dim llawer yn digwydd' yn ein capeli ar hyn o bryd.

Y gwir yw fod mwy yn digwydd nag a gredwn, ac yn sicr mae mwy o weithgarwch nag y caiff y mwyafrif ohonom glywed amdano, nag sy'n cael ei adrodd!

Felly, wrth i chi a'ch capeli a'ch gofalaethau ailafael yn eich gwaith ar ddechrau'r tymor newydd, hoffem eich gwahodd i anfon eich newyddion lleol atom. Byddai llun da a chapsiwn byr yn adrodd yr hanes yn dderbyniol iawn ac yn anogaeth i'n darllenwyr. Ac os oes digwyddiadau o bwys, cenadaethau, ymgyrchoedd, trafodaethau rhyng-enwadol neu draws-enwadol lleol – mewn gair, unrhyw beth sydd yn 'newyddion' – cofiwch am *Cenn@d*. Hoffem gynnwys adroddiadau byrion o'r hyn sy'n bwysig i chi.

Ac os hoffech ymateb i erthyglau a gyhoeddir yn *Cenn@d*, anfonwch atom. Mae yma fforwm i ni fedru trafod ymhlith ein gilydd rai o'r materion hynny sy'n ein blino neu sy'n ein llenwi â gobaith.

Os oes gennych adolygiadau byrion o lyfrau rydych chi wedi eu darllen ac yn meddwl y byddai eu cynnwys o fudd i eraill ... cofiwch fod *Cenn@d* yn cynnig gofod i chi.

Mewn gair, eich papur chi, sy'n dibynnu arnoch chi am y newyddion a'r storïau i'w hadrodd, yw *Cenn@d*. Os na chlywsoch, neu os na welsoch unrhyw gyfeiriad at eich ardal chi ar ein tudalennau, anfonwch atom er mwyn unioni hynny.

Edrychwn ymlaen at glywed gennych.

Watcyn James, Aled Davies, Huw Powell Davies, Marian Beech Hughes

Dyma gyfarfod hyfryd iawn

Grwgnach a chroeso

Emyn 705: 'N'ad fod gennyf'

Darlleniad Salm 14 neu fe ellir canu *Salmau Cân Newydd* https://www.bible.com/bible/1364/PSA.14.SCN

Yr ynfyd (*nābāl* yn y Beibl Hebraeg) yw'r un sydd nid yn unig yn gwadu bodolaeth Duw ond sy'n dewis gamblo am ddiffyg canlyniadau i'w ddewisiadau moesol (Salm 10:4). Gall *nābāl* hefyd gyfeirio at rai sy'n gwrthod awdurdod Duw (Job 21:7–15) ac mae Paul yn egluro natur y ffolineb gwrthryfelgar fel hunanladdiad moesol ac athronyddol (Rhufeiniaid 1:17 ymlaen). Does dim rhaid gwadu *bodolaeth* Duw i wadu *ei hawl* na'i farn ar ein bywydau a thros fywyd y byd. Doethineb na ellir ei ganfod o'n mewn yn naturiol yw'r awydd i geisio Duw, i ddisgwyl wrth ei farn gyfiawn, i lochesu ynddo.

Gweddi

Arglwydd, diolchwn i ti nad adewaist dy hun yn ddi-dyst a'th fod wedi dewis gweithredu yn unol â'th gymeriad, mewn cyfiawnder, barn, trugaredd a gras yn Iesu Grist. Drwy dy Ysbryd Glân, a wnei di blannu egwyddorion edifeirwch a ffydd ynom? Trugarha wrthym yn Iesu Grist, Amen.

Darlleniad: Luc 15:1–10

Cefndir

Yn ei 'Chwedlau' mae Aesop yn adrodd am gi a fynnai orwedd ym mhreseb yr ych. Ni allai fwyta'r gwair a roddwyd ynddo, ond ni chaniatâi i'r gwartheg newynog bori chwaith.

Rhyw sefyllfa debyg sy'n cael ei disgrifio gan Luc yn ei efengyl.

Gwyddai Iesu fod ei ddyfodiad yn achosi ymraniadau ymhlith ei wrandawyr (12:49 ymlaen). Fe alwodd ar y tyrfaoedd a'r athrawon i ddarllen arwyddion yr amserau a sylweddoli bod Mab y Dyn wedi dod i'w plith. Rhaid oedd edifarhau (13:1–9). Ofer fyddai ceisio hunanddyrchafu gan mai'r gostyngedig a gâi eu dyrchafu yn Nheyrnas Dduw (14:11; gweler hefyd 'Cân Mair', 1: 50–53).

Byddai'r deyrnas yn ei chyflawnder fel gwledd fawr. Ymesgusodi a wnaeth y 'gwahoddedigion' a fforffedu eu braint pan ddaeth hi'n amser mynychu'r wledd. Yn eu lle gwahoddwyd tlodion, anafusion a chloffion, pobl o'r priffyrdd a'r caeau, i fwynhau'r danteithion a baratowyd (14:22–4).

Mae'n wir (fel y gwelsom yr wythnos diwethaf) fod gofynion y deyrnas yn rhai heriol. Rhaid, meddai Iesu, wrth edifeirwch dyddiol, codi croes ac ufuddhau i werthoedd amgenach y deyrnas. Er hynny, roedd meddiannu'r deyrnas yn rhodd mor werthfawr fel ei fod yn werth gwerthu'r cyfan a feddwn er mwyn canfod y trysor yn y cae a'r perl gwerthfawr.

Ymatebion gwahanol

Ymateb 'yr holl gasglwyr trethi a phechaduriaid' oedd closio at Iesu a 'nesáu' ato. Cynrychiolai'r 'casglwyr trethi' bobl a oedd, yn nhyb y Phariseaid, wedi gwerthu eu henaid a'u cymrodyr er mwyn gwasanaethu Herod, neu'r Rhufeiniaid, neu'r ddau ohonynt! Fe'u hystyrid yn dwyllwyr didrugaredd. Term cyffredinol yw 'pechaduriaid' i ddisgrifio pobl dlawd, neu bobl nad oeddynt yn ymdrechu i gadw'r deddfau crefyddol yn fanwl.

Pobl a ddirmygid gan y Phariseaid oedd y ddau gategori a dyma'r rhai y cawsent eu dysgu i'w hosgoi. Fe allent, er enghraifft, fod wedi cyffwrdd â chenedl ddynion, neu gorff marw. Byddai bod mewn perthynas â nhw, felly, yn ddiarwybod i'r crefyddwr manwl, yn ei 'halogi.'

Parhau i 'rwgnach' am Iesu a'r cwmni a gadwai wnaeth y Phariseaid a'r ysgrifenyddion, oedd wedi rhoi eu bryd ar geisio parchu, dehongli, a chadw'r deddfau crefyddol a drafodwyd ganddynt â'r fath fanylder.

Hyd heddiw, ein gobaith mwyaf yw fod Iesu'n 'croesawu pechaduriaid' ato i gydfwyta ag ef (Datguddiad 3:21).

Dwy ddameg – un ergyd

Yn y ddameg gyntaf sylwn mai gŵr (sef y bugail a adawodd bopeth i chwilio am ei ddafad golledig) yw'r arwr ac mai gwraig (a gollodd rodd ariannol, werthfawr) yw'r prif gymeriad yn yr ail.

Yr un ergyd sydd i'r ddwy ddameg.

Yn gyntaf, boed yn 'ddafad' golledig neu'n ddarn arian a gollwyd, i'w perchnogion, roedd y golled mor ddifrifol fel bod y bugail yn fodlon chwilio 'hyd nes dod o hyd' i'r ddafad oedd wedi crwydro. Roedd y wraig yn fodlon 'chwilio'n ddyfal hyd nes dod o hyd' i'r arian oedd wedi syrthio i'r llwch oedd ar y llawr. Ni wyddai'r ddafad goll na'r arian coll eu bod yn golledig, ac ni wyddent eu bod yn werthfawr chwaith – hyd nes iddynt fynd ar goll a chael eu canfod!

Yn ail, daw darganfod yr hyn a gollwyd â boddhad mawr i'r bugail ac i'r wraig fel ei gilydd. Tiriondeb cadarn a geisiodd y ddafad golledig, a llawenydd o'i darganfod a barodd i'r bugail ei chario i ddiogelwch y praidd.

Byddai'r Phariseaid a'r ysgrifenyddion wedi adnabod yr adleisiau ysgrythurol. Onid oedd yr Arglwydd fel bugail (Salm 23) ac oni addawodd y deuai ei hun i chwilio am ei braidd, y bobl a wasgarwyd gan esgeulustod y bugeiliaid? (Eseciel 34:6–10)

Yn ôl gwireb yng 'Nghaneuon Rabba' (sef rhan o'r Midrash Iddewig), os ymdrechai rhywun i ddarganfod arian a gollwyd yn ei dŷ, cymaint mwy oedd ei gyfrifoldeb i chwilio am drysor y Gyfraith. Fel y chwiliodd y wraig yn y ddameg am drysor coll, felly daeth mab y dyn i geisio ac i gadw'r hyn a gollwyd.

Yn drydydd, ni adawyd y ddafad grwydredig na'r arian coll yn eu cyflwr colledig. Aeth y bugail i geisio'r hyn a gollwyd a chwiliodd y wraig am ei heiddo gwerthfawr i'w ddychwelyd i'w briod le.

Yn bedwerydd, pan adferwyd y ddafad goll a phan ddarganfuwyd yr arian coll, daeth 'llawenydd' nid yn unig i'r rhai a adferwyd ond llanwyd calonnau'r bugail a'r wraig hwythau gan lawenydd eu dychweliad. Darluniau oedd y pethau hyn oll o'r 'llawenydd yn y nef' pan fydd 'un pechadur' yn edifarhau. Gerbron gorseddfainc Duw bydd 'angylion Duw' yn llawenhau am edifeirwch ac am ddychweliad un pechadur at yr Arglwydd.

Ydy, mae gras yn chwilio amdanom yn y fan *lle yr ydym*. Testun ein diolchgarwch i dragwyddoldeb yw na adawodd gras mohonom yn y fan *lle yr oeddem*. Diolch bod Iesu'n parhau i 'groesawu pechaduriaid'. Ac y mae ei gwmni grasol ef yn parhau i'n denu, a'n harwain, i gefnu ar yr hyn oeddem (edifeirwch), i feddiannu'r hyn ydym, drwy ffydd. Yr ydym yn bobl y daeth mab y dyn i chwilio amdanynt, eu canfod a'u dychwelyd.

Gweddi

Arglwydd, diolchwn hyd yn oed heddiw fod enghreifftiau dyddiol o bobl yn cael eu darganfod gan ras, o bobl sy'n cael eu dychwelyd atat drwy edifeirwch a ffydd. Helpa ninnau i lawenhau yn yr hyn sy'n achosi llawenydd ymhlith angylion y nef ger dy fron. Ac, Arglwydd, dyhëwn am weld dy Ysbryd Glân yn galw myrddiynau ar dy ôl, gan ddyblu a threblu llawenydd y nef. Amen.

Emyn 321: 'Iesu, nid oes terfyn arnat'

RWJ

Cyhoeddir *Cenn@d* ar y cyd gan Eglwys Bresbyteraidd Cymru ac Undeb Bedyddwyr Cymru.
Oni nodir yn wahanol, nid yw barn cyfranwyr *Cenn@d* yn cynrychioli barn swyddogol Eglwys Bresbyteraidd Cymru nac Undeb Bedyddwyr Cymru. Gallwch anfon eich cyfraniadau / gohebiaethau / ymholiadau at:
watcyn@cennad.cymru | huw@cennad.cymru | aled@ysgolsul.com
www.cennad.cymru CennadCymru @CennadCymru